# Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

David Phillips

Denmarc

Cynhyrchu coed Nadolig ar raddfa fawr i'w hallforio, cynhyrchu deiliach Ffynidwydd Llwydlas a sioe fasnach Langesø – Rhan 2

13-19 Awst 2019

## 1. Cefndir

Denmarc yw cynhyrchwr ac allforiwr mwyaf coed Nadolig a deiliach yn Ewrop trwy gyfrwng ei gweithgarwch cynhyrchu ar raddfa fawr, ei gweithgarwch cynhyrchu stoc meithrin a'i choed a reolir mewn ffordd broffesiynol er mwyn cynhyrchu deiliach. Amcan yr ymweliad oedd gweld eu dulliau cynhyrchu, meithrin dealltwriaeth well o'r diwydiant cyfan a chyfarfod cwmnïau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant.

Yn ogystal, roeddwn yn dymuno gweld y trefniadau rheoli coed er mwyn cynhyrchu deiliach Ffynidwydd Llwydlas.

## 2. Y daith

**Diwrnod 1**

Roedd yr ymweliad cyntaf ag Oster Skovgard, safle manwerthu mawr iawn yn Herning, canol Jutland. Maent yn fferm goed o faint canolig ac mae ganddynt atyniad Nadolig a'r siop fanwerthu fwyaf yn Nenmarc.

Mae'r teulu wedi creu atyniad fferm sy'n agor yn gynnar ym mis Medi bob blwyddyn.

Bydd pobl yn teithio ar fysys hyd at 100 milltir i brynu coeden ac addurniadau, ac mae'n gyrchfan adnabyddus i bartïon Nadolig swyddfeydd gyda chaffi yno sy'n agor o ddechrau fis Tachwedd.

Mae ganddynt safle 'dewis a thorri' o tua 15 erw, sy'n cynnwys llwybrau a llwybr i'r teulu, ond maent yn arddangos nifer o'u coed wedi'u torri ymlaen llaw ar dir cyfagos.

O ganlyniad i nifer fawr y coed a dyfir yn eu hardal, maent yn gwerthu coed 1.8m am tua £25, sy'n llawer rhatach na'r pris a godir yn y DU, ond mae ganddynt gaffi sy'n gallu gweini 100 o bobl ar yr un pryd hefyd, ac maent yn gwerthu addurniadau a chanhwyllau, gan ddefnyddio hen adeiladau fferm er mwyn gwneud hynny.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Caffi Oster Skovgard – ar agor ar gyfer partïon Nadolig o'r ail benwythnos ym mis Tachwedd.

Archwilio coed gyda Pia Pedersen o Oster Skovgard.  Mae'r Daniaid yn rhoi cryn sylw i weithgarwch tocio er mwyn cael siâp.





Ffynidwydd Llwydlas wedi'i thocio yn dda iawn





Rhai o'r addurniadau a werthir yn Oster Skovard.

Diwrnod 2

Ffair Langesø

Y prif reswm dros deithio i Ddenmarc oedd er mwyn ymweld â Ffair Langesø. Hon yw'r brif sioe fasnach dechnegol ar gyfer tyfu coed Nadolig a chynhyrchu deiliach yn Ewrop.

O'r maes parcio, roedd hi'n amlwg bod nifer dda o Ddaniaid ac Almaenwyr yn ymweld â hi, a gwelwyd nifer o gerbydau wedi'u cofrestru yng Ngweriniaeth Tsiec a Gwlad Pwyl yno hefyd. Deallaf bod 3,000 o bobl wedi ymweld â'r digwyddiad.

Gyda dros 200 o stondinau masnach a oedd yn cynnwys popeth o blanhigion i beiriannau paledi ar gyfer tyfwyr coed proffesiynol, bu'n ymweliad diddorol. Treuliwyd y diwrnod yn siarad gyda nifer o gynhyrchwyr eginblanhigion er mwyn ceisio cael dealltwriaeth well o'r tarddiadau amrywiol a'r mathau o eginblanhigion sydd ar gael. Rydw i wedi bod yn plannu eginblanhigion 'dau a dau' pedair blwydd oed ond bellach, deallaf y gallai 'dau ac un' (tair oed) fod yn well i'm system i, a'i fod yn sicrhau gwell tyfiant. Yn ogystal, cyfarfûm â'r cynhyrchwyr hadau mwyaf yn y diwydiant, y byddent yn gallu fy nghyflenwi i pe bawn yn dymuno plannu fy nghoed fy hun o had. Roedd hi'n galonogol gweld y treialon a'r gwaith ymchwil sylweddol iawn sydd wedi cael ei wneud yn y diwydiant dros y 40 mlynedd ddiwethaf.

Roedd cryn dipyn o beirianwaith arbenigol yno, o dractorau cul i'w defnyddio rhwng rhesi, i rwydwyr arbenigol. Roedd yr arddangosiadau tocio yn ddiddorol iawn wrth ddangos dulliau o gulhau coed ar gyfer y ffasiwn bresennol yn y farchnad.

Roedd rhwydi heb blastig yn bwnc poblogaidd, wrth i bobl ddychwelyd at fyrnwyr coed cortyn

sisal 'hen ffasiwn' a hefyd, roedd datrysiadau rhwydi startsh sy'n pydru ar gael.  Roedd rhai o'r peiriannau gwahanol a arddangoswyd yn cynnwys taenwr gwrtaith gyda disgiau sy'n cael eu bwydo yn niwmatig uwch ben yr hopran er mwyn taenu dros goed hyd at 3m mewn uchder, a chwythwr tarth ar fŵm er mwyn chwistrellu plaleiddiaid.

Un o'r cyfarfodydd mwyaf diddorol a gefais oedd gyda chymdeithas coedwigwyr bychain Denmarc.  Maent yn gymdeithas fasnachol sy'n gofalu am fuddiannau tyfwyr coed Nadolig Denmarc.  Mae'r diwydiant tyfu coed Nadolig yn gyfran fach iawn o gyfanswm yr ardal coedwigaeth ac mae'n gweithredu ar sail di-gymhorthdal.  Yn y gorffennol, cynigiwyd cymhorthdal am dyfu coed Nadolig ond arweiniodd hyn at orgyflenwad coed o ansawdd gwael.  Ceir pryder y gallai gweithgarwch plannu coed ychwanegol er mwyn lliniaru effaith newid hinsawdd, os na chaiff ei reoleiddio'n gywir, arwain at anffrufio’r farchnad os bydd teneuon yn cyrraedd y farchnad Nadolig.




Taenwr gwrtaith gyda disgiau ar ei ben er mwyn mynd dros ben y coed.



Stondin yn gwerthu rhwydi coed ecogyfeillgar wedi'u cynhyrchu o startsh indrawn bioddiraddadwy.



Taenwyr cemegol ar gyfer rheolaeth flaen Ffynidwydd Nordmann.

Tractor nenbont coed arbenigol gyda pheiriant er mwyn tynnu coed i'w potio.



Diwrnod 3

Henning Pedersen Overgaard – Cynhyrchu ar raddfa fawr er mwyn allforio



Henning Pedersen Overgaard I/S Tyfwr ar raddfa fawr er mwyn allforio

Mae lefel dderbyniol y gorchudd glaswellt/chwyn yn uwch nag y byddem yn ei dymuno yn y DU.

Ar ôl sioe Langesø, dychwelais i ardal Canol Dwyrain Jutland. Mae'r tir yma yn lôm dros dywod ar fryniau tonnog. Mae'r hinsawdd yma yn fwynach nag yw tymheredd arferol Denmarc, gan gynnig hinsawdd gwanwyn gwell gyda llai o rew hwyr. Mae Mr Pedersen yn tyfu dros 500 erw o goed a dangoswyd sawl clwstwr o goed wedi'u tocio'n dda i mi. Byddai'n ddigon bodlon gwerthu coed 1.8m gradd canolig am €11/coeden yn ôl llwythi o 1,000 o goed. Mae wedi bod yn cynhyrchu coed ers 25 o flynyddoedd ac mae'n teimlo, er bod y prisiau hyn yn isel iawn, y gallai barhau i wneud elw. Dywedodd hefyd nad oes fawr iawn o bobl newydd yn ymuno â'r diwydiant yn Nenmarc. Mae'n disgwyl i'r prisiau barhau i fod yn is tan canol y 20au. Mae'r ardal yn wyntog a gwelwyd gwrychoedd atalfeydd gwynt rheolaidd o Sbriws Gleision rhwng adrannau. Mae ganddo rai clystyrau Ffynidwydd Llwydlas sefydledig ar gyfer deiliach ac mae'n gwerthu deiliach am €220/tunnell. Mae'n tyfu ychydig o Sbriws ac Omorika i'w hallforio i'r Almaen hefyd.

Diwrnod 4: Meithrinfa Coed Majland

Mae Meithrinfeydd Majland yn cyflenwi fy eginblanhigion. Mae'n fferm tua 400 erw ac wedi'i threfnu'n adrannau 30m o led a 400m o hyd yn bennaf. Mae ffordd ar ddiwedd yr adrannau hyn, ynghyd â mynediad i brif gyflenwad dyfrio. Mae gan bob adran wrych sydd tua 3m mewn uchder i'w rhannu. Y prif fusnes yw eginblanhigion Nadolig, coed mewn potiau a choed a dyfir mewn cae.

Cefais weld gwahanol darddle pob math a gweld eginblanhigion gwahanol oedrannau a dwyseddau. Nid oedd unrhyw arwyddion o glefyd na chwyn i'w gweld.

Mae gwerthiant eginblanhigion wedi lleihau o uchafbwynt yn 2012;  felly, maent yn cynyddu maint y safle coed mewn potiau a dyfir.  Plannir y rhain mewn caeau yn y potiau ac fe'u tyfir am hyd at bum mlynedd.



Eginblanhigion Nordmann

Coed yn cael eu tyfu mewn potiau yn y ddaear (plannwyd allan yn 2015).



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Adran nodweddiadol gyda siambr dyfrio sy'n 30m o led a 400m o hyd.





Coed a dyfwyd mewn potiau ar ôl blwyddyn.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diwrnod 5:  Aarhus
Diwrnod teithio.

Diwrnod 6:  Meithrinfa Planhigion Duelund
Mae Duelund yn feithrinfa sy'n gwerthu wrth ymyl y ffordd, ond mae ganddynt gyfanswm mawr o erwau lle y tyfir Ffynidwydd Llwydlas yn benodol ar gyfer deiliach.  Tyfir y coed ar ddwyster uchel o tua 4,500 fesul hectar ac maent yn cael eu cynaeafu bob blwyddyn er mwyn cyflenwi deiliach.  Gwelais nifer o glystyrau tebyg yn Nenmarc.  Roedd y coed yma tua 7m o uchder ac yn hollol noeth o'r gwaelod am 3m.  O 3m i'r brig, cedwir canghennau yn fyr er mwyn annog tyfiant ffres, a gynaeafir â llaw bob blwyddyn o lefel y ddaear gan ddefnyddio tocwyr coed.

Rhoddir cryn dipyn o wrtaith i'r coed er mwyn cynhyrchu tyfiant toreithiog o liw glas.

Bydd y cyfnod cynaeafu ar gyfer y Nadolig yn cychwyn mor gynnar â chanol mis Hydref a gwerthir sypiau am £1.1 /5 kg

Ceir sawl ardal sy'n cynhyrchu deiliach yn y rhan hon o Ddenmarc, ond ni welais unrhyw glystyrau ifanc – mae'n ymddangos eu bod oll yr un oedran.



Ffynidwydd Llwydlas 20 oed wedi'u plannu bob 1.5m mewn sgwâr.



Gwaelod coed wedi'u torri'n noeth i 3m a chynaeafu deiliach rhwng 3m a 6m.

Casgliad trawiadol o Sbriws glas pigog iawn ar gyfer y farchnad leol.





Ffynidwydd Llwydlas neilltuol i'w gwerthu ym Meithrinfa Duelund.



Tynnwyd y llun hwn yn ffair Langescø ac mae'n dangos swp da o ddeiliach Ffynidwydd, sef lliw glas a nodwyddau caled fel brws dannedd. Caiff hwn ei allforio i gyfanwerthwyr blodeuwriaeth ar draws Ewrop.

## 3. Y Camau Nesaf

Heb os, bydd gorgyflenwad deiliach i'r farchnad allforio Ewropeaidd dros y blynyddoedd nesaf.  Gan sgwrsio gyda thyfwyr, maen nhw'n bryderus iawn am Brexit, a'r gostyngiad yng ngwerth y Bunt.  Mae ganddynt gostau cludiant uchel i farchnad y DU hefyd.  Mae ganddynt fwy o ddiddordeb mewn gwerthu i wledydd UE a cheir marchnad sy'n datblygu'n dda gyda Rwsia hefyd.

Mae'n cadarnhau fy marn i bod fy menter gymharol fach, sy'n gwerthu i'r farchnad leol yn bennaf, o'r maint cywir ar gyfer fy fferm i ar hyn o bryd.

Gan ddilyn yr ymweliad hwn a'm hymweliad ag Iwerddon, rydw i'n mynd i blannu rhai Ffynidwydd Llwydlas er mwyn cynhyrchu deiliach yn benodol.  Rydw i wedi gweld pa fathau sy'n well gennyf ac wedi cael cyngor am y rhai sydd fwyaf addas i'm hinsawdd a'r math o bridd sydd gennyf.  Rydw i'n ystyried dechrau tyfu rhai coed mewn potiau hefyd, fel y gwelais yn Nenmarc.

Yn ogystal, byddaf yn dechrau tocio flwyddyn yr gynt na phryd yr ydw i yn ei wneud ar hyn o bryd.

## 4. Prif Negeseuon i'r diwydiant

1. Mae diwydiant ar raddfa fawr ac sy'n un dwys o ran cyfalaf yn bodoli.
2. Mae'r diwydiant ar bridd sy'n draenio'n dda yn bennaf, ac mewn ardaloedd lle y mae'r tywydd yn gymharol fwyn.  Mae rhew hwyr ar ôl i'r coed ddechrau tyfu yn bryder mawr.
3. Ar hyn o bryd, gwelir gorgyflenwad yn y farchnad gan bod cryn dipyn wedi cael eu plannu yn 2012, felly ni welir gostyngiad yn y cyflenwad tan 2025.
4. Gall y Daniaid dyfu coed o ansawdd cymedrol am €11/goeden wedi'u llwytho i'w gwerthu.  Mae angen i dyfwyr yn y DU anelu am y pris hwn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gystadleuol.
5. Gall cynhyrchwyr sefydledig coed o ansawdd uchel wedi'u tocio wneud elw.
6. Ni ellir gwerthu clystyrau o goed heb eu tocio ac o ansawdd gwael yn Nenmarc.
7. Gwelir cynnydd mewn diwydiant cynhyrchu coed mewn potiau a dyfir mewn potiau yn y pridd.
8. Mae Denmarc yn allforio i 17 gwlad gan gynnwys Rwsia.
9. Gall pasbortau sicrhau iechyd planhigion fod yn broblem.  Ceir pryder ynghylch Brexit y byddant yn gorfod delio â mwy o waith papur efallai wrth allforio i'r DU.
10. Mae'n bwysig iawn nad yw gweithgarwch cymhorthdal coedwigaeth yn cynnwys plannu amrywiadau coed Nadolig.  Bydd hyn yn arwain at anffurfio'r farchnad.
11. Ychydig iawn o weithgarwch plannu deiliach newydd a welir, a allai gynnig cyfleoedd.
12. Mae clystyrau deiliach dwysedd uchel dros 20 mlwydd oed yn gynhyrchiol o hyd.
13. Mae llafur, diffyg pobl ifanc yn y diwydiant a thrafnidiaeth yn broblemau mawr.